# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 29AIN MAWRTH 2017 AM 2.00 P.M.

---

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs B. Jones – Cadeirydd (Llywyddu)

Cynghorwyr:

Mrs C. Forehead (Adnoddau Dynol a Llywodraethu/Rheoli Busnes), N. George (Gwasanaethau Hamdden a'r Gymuned), D.T. Hardacre (Perfformiad a Rheoli Asedau), D. Havard (Addysg a Dysgu Gydol Oes), K. James (Adnewyddu, Cynllunio a Datblygiad Cynaliadwy), D.V. Poole (Tai), a T.J. Williams (Priffyrdd, Cludiant a Pheirianneg).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro) a C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Corfforaethol Cymunedau).

Hefyd yn Bresennol:

C. Evans Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor

**1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr K.V. Reynolds, R. Woodyatt, N. Scammell (Cyfarwyddwraig Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Adran 151) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol).

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

**3. CABINET – 15FED MAWRTH 2017**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 (rhifau cofnod. 1 -11) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**4. PANEL YMGYNGHOROL CENEDLAETHAU'R DYFODOL A GYNHALIWYD AR 24AIN TACHWEDD 2016 .**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion Panel Ymgynghorol Cenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 24ain Tachwedd 2016 (rhifau cofnod 1-6).

## MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 5. POLISI GALWEDIGAETHOL RISG AR Y FFYRDD

Roedd yr adroddiad, a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 27ain Mawrth 2017, yn darparu manylion am y Polisi Galwedigaethol Risg ar y Ffyrdd ar gyfer y Cabinet a gofyn am ei fabwysiadu.

Mae'r Polisi yn amlinellu sut y bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswydd i gyflwyno a chynnwys systemau gwaith diogel ar gyfer y rhai sy'n gyrru ar gyfer eu gwaith ac mae'n amlinellu prosesau ar gyfer arolygu trwyddedau gyrru, asesiadau gyrru, cynnal a chadw cofrestr gyrwyr, dosbarthu a diweddaru'r llawlyfr gyrwyr, cynnal a chadw cerbydau, adrodd ar ddamweiniau a digwyddiadau, defnydd o wybodaeth rheoli cerbydau (VMI) a hyfforddi gyrwyr.

Nodwyd bod cyfarfodydd ymgynghori yn cael eu cynnal gyda'r Undebau Llafur perthnasol ac roedd y pwynt trafod mwyaf arwyddocaol yn gysylltiedig â'r math o Systemau Gwybodaeth Rheoli Cerbydau a'r defnydd ohonynt. Mae cytundeb wedi ei gyrraedd gyda'r Undebau Llafur i gyfyngu ar y defnydd o Systemau Gwybodaeth Rheoli Cerbydau ar hyn o bryd er mwyn: -

- Tracio Cerbydau
- Systemau camera allanol 360 gradd
- Tacograffau digidol (gofyniad cyfreithiol presennol)
- Technolegau gwasanaeth penodol, ee: systemau monitro lledaenu halen, systemau monitro gwagio gwteri.

Cefnogir y defnydd o Systemau Gwybodaeth Rheoli Cerbydau gan Asesiad o’r Effaith ar Breifatrwydd sydd wedi cael ei ddatblygu gan Uned Lywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol yr Awdurdod ac mae'n nodi yn amlwg at ba ddiben y bydd y Systemau Gwybodaeth Rheoli Cerbydau yn cael eu defnyddio, yn trafod llifoedd gwybodaeth, mynediad i reolaethau data a chadw data. Yn ogystal, mae'r Asesiad o’r Effaith ar Breifatrwydd wedi bod yn destun ymgynghoriad â'r Undebau Llafur.

Nododd yr aelodau fod, er nad oes unrhyw effeithiau ariannol a nodwyd yn yr adroddiad, mae'r Rheolwr Risg yn awyddus i fabwysiadu'r Polisi fel y gellid gwneud arbedion ar Bolisïau Yswiriant.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am yr adroddiad manwl a gofyn am wybodaeth bellach am Weithwyr Cymdeithasol yn gyrru plant / oedolion agored i niwed. Sicrhaodd y Swyddogion yr Aelodau y byddai trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r Cyfarwyddwr perthnasol i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chyfathrebu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog i fabwysiadu'r Polisi Galwedigaethol Risg ar y Ffyrdd, fel y nodir ynddo.

## EITEMAU EITHRIO

Ystyriodd yr Aelodau brofion er budd y cyhoedd a daethant i'r casgliad bod y budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad, ar y cyfan, yn bwysicach na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth ac fe: -

> BENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid eithrio'r cyhoedd o weddill y cyfarfod oherwydd y datgeliad tebygol o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 6. CANOLFANNAU CYMUNEDOL - ESTYNIAD I YMDDEOLIAD HYBLYG

Gofynnodd yr adroddiad i'r Cabinet ystyried ymestyn ymddeoliad hyblyg oherwydd amgylchiadau eithriadol o fewn y Maes Gwasanaeth Canolfannau Cymunedol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.  Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, i gymeradwyo ymestyn ymddeoliad hyblyg oherwydd amgylchiadau eithriadol, o fewn maes gwasanaeth Canolfannau Cymunedol.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.50 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed Ebrill, 2017.

________________________

CADEIRYDD